| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21 GORFFENNAF 2016** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – D H CONVENIENCE STORE, 109 STRYD FAWR, BANGOR, LL57 1NS** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer D H Convenience Store, 109 Stryd Fawr, Bangor LL57 INS gan Mr David James Hughes of 44 Llys Bedwyr, Tan y Bryn, Bangor LL57 1SF

Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo , cerddoriaeth wedi ei recordio ( cefndirol yn y siop) , a dangos ffilmiau. Gofynnir am yr hawl i gyflenwi alcohol rhwng 08:00 y bore a 23:00 yr hwyr

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol -** Oddi ar yr Eiddo | Llun - Sul<br>**08:00 – 23:00** |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio –** | Llun – Sul<br>**08:00 – 23:00** |
| **Ffilmiau -** | Llun - Sul<br>**08:00 – 23:00** |
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Llun - Sul<br>**08:00-23:00** |

## Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu – fel rhan o'r cais gwreiddiol

- Dim gwerthiant alcohol heb gerdyn adnabod
- Dim gwerthu alcohol i gwsmeriaid o dan ddylanwad
- Bwriedir gweithredu i sicrhau na fydd unrhyw oddefgarwch o unigolion sydd yn ymgymryd â chyffuriau neu yn gwerthu cyffuriau ar yr eiddo
- Derbyn cyflenwadau nwyddau ar amser rhesymol
- Monitro cyson gan staff i sicrhau nad ydyw cwsmeriaid yn creu niwsans
-

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M o'r cais (tudalen 16 o'r atodiad)

## YMGYNGHORIAD

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu | Sylwadau – dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Gwynedd –Safonau Masnach | Sylwadau - dim gwrthwynebiad |
| | |

.

**Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu**

Nid oes gan yr Heddlu unrhyw sail i wrthwynebu'r cais ; ac yn dilyn ymweliad a'r ymgeisydd ; cytunodd yr ymgeisydd gyda'r Heddlu nad oedd angen gofyn am weithgareddau trwyddedig o ddangos ffilmiau a cherddoriaeth wedi ei recordio ar y cais - ac mae gwerthiant alcohol oddi ar yr eiddo yn unig y cyfeirir ato yn rhan J o'r cais.
Noder fod yr ymgeisydd wedi cytuno i weithredu polisi 'Her 25' .
Cytunodd yr ymgeisydd hefyd i dderbyn amodau Teledu Cylch Cyfyng ( CCTV) ar y drwydded eiddo.

**Sylwadau ac argymhellion Safonau Masnach , Cyngor Gwynedd**

Nodwyd fod yr ymgeisydd yn destun ymchwiliad cyfredol gan swyddogion y gwasanaeth - a bod hyn yn berthnasol i'r amcan Trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad, tudalennau 24 – 26 o'r atodiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais diwygiedig yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.